CfB

2002-2003 Adroddiad a Chynlluniau

CYFATHREBU AR GYFER BUSNES

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych:

- **Beth yw CfB a beth mae'n ei wneud**
- **Sut y gallwch helpu CfB**
- **Beth a wnaeth CfB yn 2002**
- **Beth mae CfB yn anelu i'w wneud yn 2003**
- **Aelodau CfB**
- **Sut i gysylltu â CfB**
- **Ble i gyflwyno cwynion defnyddwyr**

Cyflwyniad y Cadeirydd

Mae'r Ddeddf Cyfathrebu a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni yn golygu y bydd Cyfathrebu ar gyfer Busnes (CfB) yn dod i ben. Mae ein Hadroddiad a'n taflen Gynlluniau olaf yn cyd-daro â datblygiadau pwysig ym maes rheoleiddio cyfathrebu. Mae'r Mesur Cyfathrebu yn nodi y bydd yn ofynnol i'r Swyddfa Gyfathrebu newydd (Ofcom) ystyried anghenion buddiannau pobl mewn rhannau gwahanol o'r DU a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol wrth gyflawni ei dyletswyddau. Rhaid i Banel Defnyddwyr Ofcom allu rhoi gwybodaeth hyddysg ar faterion sy'n effeithio ar fusnesau bach.

Os ydynt am gyflawni'r amcanion hyn mae'n hanfodol bod Ofcom yn sefydlu'r peirianwaith cywir a bod strwythur cywir i'r Panel. Mae CfB o'r farn y dylai'r Panel Defnyddwyr gael pwyllgor ymgynghori a fydd yn gallu rhoi cyngor ar faterion sy'n effeithio ar fusnesau bach. Mae'r ystod eang o faterion sy'n effeithio arnynt yn gwneud hyn yn hanfodol. Yn yr amser sydd ar ôl bydd CfB yn defnyddio'i ddylanwad i helpu i gyrraedd y nod hwn.

Beth yw CfB?

Mae Cyfathrebu ar gyfer Busnes - CfB - yn gorff annibynnol a'i waith yw cynghori Oftel am faterion sy'n effeithio ar fusnesau bach yn y DU. Mae'n un o chwe Phwyllgor Ymgynghori ar Delathrebu (ACT) ac fe'i sefydlwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu o dan Ddeddf Telathrebu 1984. Mae pob aelod o CfB yn aelod o un o'r Pwyllgorau Ymgynghori eraill ac yn cyfrannu at waith y grwpiau hynny. Bydd CfB yn monitro ac yn ceisio dylanwadu ar weithredu a rheoleiddio marchnadoedd telecom er mwyn diogelu a hyrwyddo buddiannau busnesau bach. Yn arbennig, bydd CfB yn anelu at roi llais i ddefnyddwyr na fyddent fel arall yn cael eu clywed o fewn y busnes hwn sy'n newid mor gyflym, yn bennaf:

- pobl sy'n gweithio fel unig fasnachwyr;
- busnesau bach sy'n cyflogi 50 o gyflogeion neu lai;
- a'r rhai sy'n rhedeg busnesau bach y tu allan i ardaloedd trefol.

O ran materion sy'n effeithio ar bobl hŷn ac anabl sy'n rhedeg busnesau bach yn y DU, byddai DIEL - Pwyllgor Ymgynghori Oftel ar Delathrebu ar gyfer Pobl Anabl a'r Henoed - yn croesawu sylwadau. Mae'r manylion cyswllt fel y rhai ar gyfer CfB.

Sut y gallwch helpu CfB

Er mwyn cynrychioli busnesau bach yn effeithiol rhaid i ni gael gwybod beth yw eich barn a'ch pryderon. Byddwn bob amser yn croesawu gohebiaeth gan ddefnyddwyr telathrebu - gellir cael y manylion ar sut i gysylltu â ni, drwy'r Ysgrifennydd, ar wefan ACT (yn www.acts.org.uk) ac yn y daflen hon.

Beth a wnaeth CfB yn 2002

- Un o'r ffyrdd pwysicaf y bydd CfB yn gweithredu yw drwy ddylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth a pholisi Oftel, yn aml cyn i'r polisi hwnnw gael ei gyhoeddi, a thrwy ymateb i ddogfennau polisi ffurfiol pan gânt eu dosbarthu. Caiff ein hymatebion i brosesau ymgynghori eu gosod ar ein rhan ni o wefan ACT (yn www.acts.org.uk/cfb/cfb-reports.htm). Y dogfennau yr ydym wedi ymateb iddynt yw:

  Cynigion DTI i sicrhau parhad cyflenwad pe bai gweithredwr telathrebu yn mynd yn fethdalwr
  Ymgynghoriad ICSTIS ar Ganllawiau Gwasanaeth DQ
  Canllawiau Adolygu Polisi Diogelu'r Defnyddiwr
  Telerau Hawliau Cyffredinol
  Mesur Cyfathrebu Drafft
  Adolygiad Oftel o'r farchnad deleffoni sefydlog
  Cystadleuaeth mewn marchnadoedd rhyngwladol
  Cynllun Rheoli Drafft Oftel 2002/03
  Rhentu Llinellau Cyfanwerth
- Yn ein hymateb i'r *Mesur Cyfathrebu Drafft* cyflwynwyd yr achos dros gynrychiolaeth ddigonol o ddefnyddwyr busnesau bach yn y ddeddfwriaeth gyfathrebu newydd a fydd yn creu Ofcom a Phanel Defnyddwyr.
- Cyflwynodd CfB achos llwyddiannus dros gynnwys busnesau bach o fewn maes gwaith Swyddfa'r Ombwdsman Telathrebu (otelo - mae'r manylion cyswllt ar y dudalen gefn).
- Bydd Cadeirydd CfB yn gweithredu fel Cadeirydd Panel Ymgynghori Telathrebu (TAP) - y fforwm fydd yn dwyn Cadeiryddion y chwe Phwyllgor Ymgynghori ar Delathrebu at ei gilydd i gydlynu eu gwaith a chodi materion gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu.

- Cyfarfu'r aelodau ym mis Mawrth (Belfast), mis Mehefin (Llundain), mis Medi (Inverness) a mis Rhagfyr (Llundain) 2002. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys trafodaeth ar y Mesur Cyfathrebu, mynediad at fand eang a'r rhyngrwyd a materion eraill sy'n effeithio ar fusnesau bach, e.e. negeseuon ffacs di-angen.
- Cymerodd CfB ran mewn gweithgorau Oftel a'r diwydiant sydd o ddiddordeb allweddol i ddefnyddwyr, gan gynnwys Is-Grŵp Defnyddwyr Ymholiadau Rhifau Ffôn Oftel a'r Fforwm Diwydiant (sy'n gweithio ar Ddangosyddion Perfformiad Cymharol). Cyhoeddir Dangosyddion Perfformiad Cymharol yn rheolaidd a gellir cael gwybodaeth hefyd ar y wefan: www.cpi.org.uk.
- Mynychodd aelodau CfB gyfarfodydd Tasglu Busnesau Bach Oftel (SBTF) sy'n cyhoeddi newyddlenni a gwybodaeth yn rheolaidd i fusnesau bach. Gweler y wefan: www.telecomsadvice.org.uk.
- Dangosodd CfB ddiddordeb brwd ym mhrosiect gefeillio â Gwlad Pŵyl Oftel gan ddadlau o blaid yr angen i gynghori rheoleiddiwr telecom Gwlad Pŵyl ar sut i ymgynghori'n effeithiol â defnyddwyr a chynnal ymchwil i asesu gofynion, boddhad cwsmeriaid ac ati. Cyflwynodd Cadeirydd CfB gyflwyniad i swyddogion Gwlad Pŵyl ar hyn ym mis Ionawr 2002.

Beth mae CfB yn anelu i'w wneud yn 2003

- Bydd CfB yn parhau i ymateb i waith ymgynghori Oftel a'r Llywodraeth, cymryd rhan yng ngweithgorau Oftel a'r diwydiant a chydweithio gyda busnesau bach eraill a sefydliadau defnyddwyr.
- Bydd CfB yn parhau i bwyso am drefniadau effeithiol i gynrychioli buddiannau busnesau bach o dan Ofcom a'r Panel Defnyddwyr. Bydd y pwyllgor yn ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar drafodaethau ar y Mesur Cyfathrebu a fydd yn rhoi grym i Ofcom a chylch gwaith i'r Panel (o bosibl ar ddiwedd 2003).
- Bydd CfB yn monitro datblygiad y gwasanaeth ymholiadau rhifau ffôn newydd wrth iddynt ehangu gyda sylw arbennig i'w gwasanaethau a'u rhyngberthynas â busnesau bach. Mynychodd CfB y Gynhadledd Ewropeaidd ddiweddar (Chwefror 2003) ar Ymholiadau Rhifau Ffôn, gan roi cyflwyniadau.
- Bydd CfB yn parhau â'i waith gydag Oftel, fel y bydd y ddeddfwriaeth Ewropeaidd newydd, a gaiff ei gweithredu yn y DU ym mis Gorffennaf 2003, yn rhoi ystyriaeth i anghenion busnesau bach o ran cydymffurfiaeth a'u diogelu fel defnyddwyr.
- Dymuna CfB weld y mynediad ehangaf bosibl i fusnesau bach i wasanaethau lled band mwy, newydd ond mae'n pryderu am y busnesau hynny sydd y tu allan i'r ardaloedd arferol a gaiff eu cwmpasu. Mae CfB yn croesawu'r bwriad i barhau i gyflwyno gwasanaethau band eang gan BT a'r gweithredwyr cebl.
- Bydd CfB yn parhau i ddangos diddordeb mewn monitro, casglu ac asesu cwynion a wneir gan fusnesau bach yn arbennig pan fydd materion polisi yn cael eu codi.

Aelodau CfB

Peter Sayers (Cadeirydd)	e-bost cfb@acts.org.uk, Aelod o Consumer Communications for England (CCE), Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Rhyngrwyd, Cheltenham
Ian McPherson	Aelod o Bwyllgor Ymgynghori Gogledd Iwerddon ar Delathrebu (NIACT), wedi ymddeol fel Rheolwr Cyffredinol y Northern Bank, Belfast
Alastair Robertson	Aelod o Bwyllgor Ymgynghori yr Alban ar Delathrebu (SACOT), Aelod o Bwyllgor Polisi Defnyddwyr BSI, Fife
Jon Simonds	Aelod o Bwyllgor Ymgynghori Cymru ar Delathrebu (WACT), Swyddog Llywodraeth Leol - C.S. Powys
Stephen Smith	Aelod o Bwyllgor Ymgynghori ar Gyfathrebu ar gyfer Pobl Anabl a'r Henoed (DIEL), Cyfarwyddwr Cwmni, Hampshire.

Cysylltu â CfB

Mae gan CfB adran ar wefan y Pwyllgor Ymgynghori ar Delathrebu (www.acts.org.uk) sydd â gwybodaeth am CfB, ei weithgareddau, ei farn ac ymatebion polisi. Ni all CfB ymdrin â chwynion unigol. Gellir cysylltu, â'r pwyllgor yn:

Gellir cysylltu â'r pwyllgor yn:

CfB Secretariat
50 Ludgate Hill
London
EC4M 7JJ

Ffôn: 020 7634 8773
Testun: 0845 600 1318 (cyfradd leol)
Ffacs: 020 7634 8924
E-bost: cfb@acts.org.uk
Gwefan: www.acts.org.uk

Ble i gyflwyno cwynion gan ddefnyddwyr

Os oes gennych gŵyn am eich cwmni telathrebu, cysylltwch â hwy yn gyntaf. Os na fyddant yn datrys eich cŵyn yn foddhaol neu os na fyddant yn ymateb, gallwch gysylltu, â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Telathrebu (otelo):

otelo
Wilderspool Park
Greenall's Lane
Warrington WA4 6HL

Ffôn: 0845 050 1614 (cyfradd leol)
Testun: 0845 051 1513 (cyfradd leol)
Ffacs: 01925 430059
E-bost: enquiries@otelo.org.uk

Byddwch yn gallu canfod a yw'r cwmni yn aelod o otelo a sut i gwyno. Os nad yw'ch cwmni yn aelod, neu os oes gennych fater yr hoffech ei godi am delathrebu, gallwch gysylltu ag Oftel:

Ffôn: 0845 714 5000 (cyfradd leol)
Testun: 020 7634 5370
Ffacs: 020 7634 8843
E-bost: advice@oftel.gov.uk